Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Coluddion Cymru 2023-24

Fersiwn 1

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Manylion cyhoeddi

**Teitl:** Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Coluddion Cymru 2023-24
**Dyddiad:** Ionawr 2026
**ISBN:** 978-1-83766-762-8

## Manylion cyswllt

Yr Adran Wybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: screening.information@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg heb oedi. We will respond to correspondence in Welsh without delay.

## Datganiad Sicrwydd Ansawdd

Mae cofnodion sgrinio data yn newid yn gyson. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (wedi'u harchifo). Gallai hyn ymwneud â phryd y nodwyd bod angen sgrinio unigolyn; ei fod wedi cael canlyniadau sgrinio y mae angen eu cofnodi neu wedi newid statws ac nad oes angen ei sgrinio mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o wahanol ffynonellau gyda lefelau amrywiol o gywirdeb a chyflawnrwydd. Mae'r Is-adran Sgrinio yn gwirio data am gywirdeb trwy gymharu setiau data - er enghraifft data practisiau Meddygon Teulu - ac mae'n cywiro'r data codio lle bo modd. Dylid nodi bod oedi weithiau wrth gasglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru ar unwaith gyda'i feddyg teulu os bydd yn symud i gyfeiriad arall. Bydd yr oedi hwn felly yn effeithio ar gyflawnrwydd y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darllenydd fod yn ymwybodol bod data'n cael ei ddiweddaru'n gyson ac efallai y bydd mân newidiadau yn y niferoedd a nodir yn y ddogfen hon flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd adnewyddu data. Byddwn, o bryd i'w gilydd, yn atal rhifau sy'n is na phump pan y gallai'r data fod yn sensitif.

## Gwybodaeth hawlfraint

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Material contained in this document may be reproduced under the terms of the Open Government Licence (OGL) (www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) provided it is done so accurately and is not used in a misleading context.

Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dylunwaith a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Cynnwys .... 4
Tablau .... 4
Ffigurau .... 5
Negeseuon allweddol .... 6
Cyflwyniad .... 7
Cefndir .... 7
Cyflawni'r rhaglen .... 8
Llwybr sgrinio .... 8
Prif ystadegau .... 10
Data .... 12
Cwmpas .... 12
Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio yn ôl bwrdd iechyd preswyl .... 18
Nifer y bobl a gafodd eu sgrinio yn ôl y math o ailalw .... 25
Cyfranogwyr a wahoddwyd .... 27
Cyfraddau adrodd labordai .... 31
Amseroedd aros ar gyfer canlyniadau sgrinio .... 33
Presenoldeb mewn apwyntiadau colonosgopi .... 35
Cyfraddau canfod .... 36
Amseroedd aros ar gyfer apwyntiad colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg .... 38
Mynychu sganiau Colonagraffeg Tomograffeg Gyfrifiadurol (CTC) .... 39
Diffiniadau .... 40
Y Tîm Cynhyrchu .... 43
Manylion cyswllt y rhaglen .... 44


# Tablau


Tabl 1: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl rhyw a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2024 .... 13
Tabl 2: Cwmpas Sgrinio Coluddion(o fewn 2.5 mlynedd), %, yn ôl cwintil amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2024 .... 15
Tabl 3: Cwmpas Sgrinio Coluddion Cymru Gyfan - Cymhariaeth Hanesyddol .... 17
Tabl 4: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yn ôl rhyw a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24 .... 19

Tabl 5: % y rhai a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yn ôl cwintil amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24 ........ 21
Tabl 6: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yng Nghymru gyfan - Cymhariaeth Hanesyddol ........ 23
Tabl 7: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yng Nghymru gyfan (%) yn ôl mis y gwahoddiad, 2023-24 ........ 24
Tabl 8: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yng Nghymru yn ôl y math o ailalw, 2023-2425
Tabl 9: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yng Nghymru gyfan yn ôl y math o ailalw, tuedd tair blynedd ........ 26
Tabl 10: Nifer y cyfranogwyr benywaidd a wahoddwyd i gael prawf sgrinio'r coluddyn yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24 ........ 28
Tabl 11: Nifer y cyfranogwyr gwrywaidd a wahoddwyd i gael prawf sgrinio'r coluddyn yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24 ........ 29
Tabl 12: Cyfanswm y cyfranogwyr a wahoddwyd i gael prawf sgrinio'r coluddyn yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24 ........ 30
Tabl 13: Nifer y citiau Sgrinio'r Coluddyn a awdurdodwyd yn ôl y canlyniad a'r bwrdd iechyd preswyl ........ 32
Tabl 14: Amser aros am ganlyniadau'r profion sgrinio, rhwng yr adeg dod i law a'r canlyniad awdurdodedig, 2023-24 ........ 34
Tabl 15: Presenoldeb mewn colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg, yn ôl bwrdd iechyd preswyl, 2023-24 ........ 35
Tabl 16: Cyfraddau canfod, tuedd tair blynedd ........ 37

# Ffigurau

Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio'r coluddyn (SYLWER: Yr ystod oedran gymwys oedd 55-74 rhwng Ebrill a Medi 2023, yna 51-74 o Hydref 2023 – Mawrth 2024) ........ 9
Ffigur 2: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2024 ........ 14
Ffigur 3: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl cwintil amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2024 ........ 16
Ffigur 4 Nifer y rhai a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yn ôl bwrdd iechyd preswyl, 2023-24 ........ 20
Ffigur 5: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn (%) yn ôl cwintil amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24 ........ 22

# Negeseuon allweddol

- Mae sgrinio'r coluddyn yn lleihau'r risg o farw o ganser y coluddyn.
- Yn ystod rhan gynharach y cyfnod adrodd hwn (Ebrill - Medi 2023), gwahoddwyd dynion a menywod 55 i 74 oed i gymryd rhan bob dwy flynedd. Estynnwyd yr ystod oedran i 51 i 74 oed o fis Hydref 2023 ymlaen, gan fabwysiadu dull graddol fel mai dim ond tua hanner y rhai a oedd newydd ddod yn gymwys a wahoddwyd i gael eu sgrinio yn ystod y cyfnod adrodd hwn.
- Cynyddwyd sensitifrwydd y prawf sgrinio gyda newid yn y trothwy positif o 150µg/g i 120µg/g o fis Hydref 2023.
- Gall pobl deimlo'n dda hyd yn oed os oes ganddyn nhw ganser y coluddyn. Mae canfod canser yn gynnar yn rhoi'r cyfle gorau i unigolyn oroesi.
- Mae sgrinio'r coluddion yn defnyddio prawf GIG am ddim y gellir ei gwblhau'n hawdd gartref.
- Ni fydd sgrinio yn darganfod pob canser, ac ni ellir gwella rhai canserau.
- Dewis yr unigolyn yw cymryd rhan mewn sgrinio'r coluddyn. Rydym yn annog pobl sy'n cael eu gwahodd i gael eu sgrinio i ddarllen y pecyn gwybodaeth yn ofalus i'w helpu i wneud eu penderfyniad.

# Cyflwyniad

## Cefndir

Dyma'r unfed adroddiad ystadegol blynyddol ar ddeg a gyhoeddwyd gan Sgrinio Coluddion Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu data ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24.

Lansiwyd Sgrinio Coluddion Cymru ym mis Hydref 2008 gyda'r nod o leihau nifer y bobl sy'n marw o ganser y coluddyn yn y grŵp o bobl a wahoddwyd i gael eu sgrinio yng Nghymru. Mae'r rhaglen sgrinio coluddion yn nodi canserau'r coluddyn yn gynnar pan fo triniaeth yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus ac mae hefyd yn tynnu tyfiannau cyn-ganseraidd a allai ddatblygu'n ganser dros gyfnod o amser. Yn y flwyddyn 2023-24, gwnaeth Sgrinio Coluddion Cymru ddiagnosio canser y coluddyn ar 457 o bobl a thynnu polypau oddi wrth 3,752 o gyfranogwyr sgrinio.

Adroddodd Adroddiad Blynyddol 2022 gan yr Archwiliad Cenedlaethol o Ganser y Coluddyn fod 10% o gleifion a gafodd ddiagnosis o ganser y coluddyn wedi cael eu hatgyfeirio trwy raglenni sgrinio yng Nghymru a Lloegr. Roedd gan bobl â chanser a ganfuwyd trwy sgrinio glefyd llai datblygedig ac roeddent yn fwy ffit yn gyffredinol. O ganlyniad, cafodd 86% o gleifion a gafodd ddiagnosis trwy sgrinio driniaeth iachaol o gymharu â 50% a ymgyflwynodd fel achosion brys.

### Cymhwysedd cyfredol

O 5 Hydref 2023 ymlaen, gwahoddodd Sgrinio Coluddion Cymru unigolion rhwng 51 a 74 oed i gael eu sgrinio am ganser y coluddyn bob dwy flynedd.

### Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

2020 NBOCAP: https://www.nboca.org.uk/content/uploads/2020/12/NBOCA-2020-Annual-Report.pdf

Gwefan Sgrinio Coluddion Cymru: www.phw.nhs.wales/bowel-screening

### Lleoliadau sgrinio

Mae Sgrinio Coluddion Cymru yn cynnig casglu samplau gartref gan ddefnyddio'r pecyn prawf sgrinio, gydag unrhyw ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal yn ysbytai'r Byrddau Iechyd ledled Cymru.

## Crynodeb o weithgarwch yn y flwyddyn a adroddwyd

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ehangodd Sgrinio Coluddion Cymru yr ystod oedran gymwys ar gyfer sgrinio canser y coluddyn yng Nghymru. O fis Hydref 2023 ymlaen, dechreuwyd gwahodd unigolion rhwng 51 a 54 oed i gael eu sgrinio am y tro cyntaf (ystod oedran y boblogaeth gymwys yw 51-74). Cyflwynwyd yr ehangiad oedran hwn yn raddol, gyda thua 50% o'r rhai 51–54 oed a oedd newydd fod yn gymwys hynny wedi'u gwahodd erbyn diwedd mis Mawrth 2024, a bydd gweddill y grŵp hwn o bobl sydd newydd ddod yn gymwys yn cael gwahoddiad erbyn mis Medi 2024. Felly, bydd y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag unigolion 55-74 oed rhwng Ebrill 2023 a Medi 2023 a 51-74 oed rhwng Hydref 2023 a Mawrth 2024. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd Sgrinio Coluddion Cymru sensitifrwydd y prawf imiwnocemegol ysgarthol sgrinio (FIT) trwy newid y trothwy positif o 150μg/g i 120μg/g o fis Hydref 2023 ymlaen.

## Edrych ymlaen at y flwyddyn sgrinio nesaf

Roedd yr ehangiad oedran a ddisgrifiwyd uchod yn rhan o gynllun tymor hwy (4 blynedd) i ehangu'r oedran sgrinio cymwys i 50-74. Bydd yr oedran sgrinio cymwys yn cael ei ehangu ymhellach i gynnwys y rhai dros 50 oed o fis Hydref 2024, gyda chynlluniau pellach i gynyddu sensitifrwydd y prawf sgrinio FIT trwy newid ymhellach yn y trothwy positif o 120μg/g i 80μg/g o fis Hydref 2024.

# Cyflawni’r rhaglen

Mae Sgrinio Coluddion Cymru yn rhan o Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n gyfrifol am reoli, cyflwyno a sicrhau ansawdd y rhaglen. Arweinir y rhaglen gan Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus a Phennaeth Rhaglen sy'n ei harwain. Caiff y rhaglen sgrinio coluddion ei chyflwyno gan staff amlddisgyblaethol, gan gynnwys Colonosgopyddion Sgrinio, Patholegwyr, Radiolegwyr, staff nyrsio, gweinyddol a staff labordy. Cefnogir y rhaglen gan Gynghorwyr Sicrhau Ansawdd ar gyfer disgyblaethau clinigol perthnasol.

# Llwybr sgrinio

Mae cyfranogwyr cymwys yn cael eu nodi o System Demograffig Cymru a'u gwahodd i gael prawf sgrinio.


Mae'r gwahoddiad yn seiliedig ar ddyddiad geni’r unigolyn ac mae'n cynnwys llythyr a phecyn gwybodaeth sy'n cynnwys y prawf i'w gwblhau. Anfonir y prawf at bobl gymwys drwy'r post i'w gwblhau gartref a'i ddychwelyd i'r labordy sgrinio canolog drwy'r post yn yr amlen ragdaledig a ddarperir.

Nid oes angen ymchwiliadau pellach ar bobl sydd â chanlyniadau profion sgrinio negyddol ar yr adeg honno. Mae'r unigolion hyn yn dychwelyd i ailalw rheolaidd a'u gwahodd eto i gael eu sgrinio ddwy flynedd yn ddiweddarach, os ydynt yn parhau i fod yn yr ystod oedran gymwys.

Mae angen ymchwiliadau pellach ar gyfranogwyr sydd â chanlyniadau cadarnhaol ac fe'u gwahoddir i gael asesiad o'u haddasrwydd i gael colonosgopi gydag Ymarferydd Sgrinio (SP). Mae'r nyrsys arbenigol hyn wedi'u lleoli mewn ysbytai ledled Cymru a chynhelir y rhan fwyaf o asesiadau dros y ffôn, ond mae apwyntiadau wyneb yn wyneb ar gael ar gais neu os yw'r ymarferydd sgrinio o’r farn bod eu hangen.

Os ystyrir bod y cyfranogwr yn ffit yn feddygol, cynigir colonosgopi iddo fel y prawf pendant cydnabyddedig ac, os caiff ei dderbyn, cynhelir hyn mewn ysbyty sy'n lleol i'r cyfranogwr. Gan ddibynnu ar y canfyddiadau ar ôl colonosgopi, mae cyfranogwyr naill ai'n cael eu dychwelyd i ailalw rheolaidd, yn cael eu rhoi ar raglen wyliadwriaeth yn ôl nifer a maint y polypau a nodwyd, neu'n cael eu hatgyfeirio at y tîm amlddisgyblaethol yn dilyn diagnosis o ganser.

Os nad yw cyfranogwr yn addas ar gyfer colonosgopi, cynigir sgan Colonograffeg Tomograffeg Gyfrifiadurol (CTC) fel arfer.




Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio'r coluddyn (SYLWER: Yr ystod oedran gymwys oedd 55-74 rhwng Ebrill a Medi 2023, yna 51-74 o Hydref 2023 – Mawrth 2024)

# Prif ystadegau

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.

- Roedd cwmpas sgrinio coluddion ar 1 Hydref 2024 yn 64.8%.
- Roedd y cwmpas ar 1 Hydref 2024 yn amrywio o 63.5% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i 66.0% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- Canran y bobl a gafodd brawf sgrinio’r coluddyn ar gyfer cyfranogwyr a wahoddwyd (ac a oedd yn gymwys) rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 yn 65.5%.
- Roedd y nifer a gafodd brawf sgrinio yn 2023-24 yn amrywio o 64.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i 67.3% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- Roedd cwmpas a’r niferoedd a gafodd eu sgrinio yn uwch ymhlith menywod. Roedd y cwmpas yn 66.9% ymhlith menywod o gymharu â 62.6% ymhlith dynion; canran y rhai a gafodd brawf sgrinio oedd 67.7% ymhlith menywod o gymharu â 63.3% ymhlith dynion.
- Roedd cwmpas a chyfraddau’r rhai a gafodd brawf sgrinio hefyd yn uwch ymhlith y rhai a oedd yn byw yn yr ardaloedd â’r amddifadedd lleiaf (71.5% a 72.7% yn y drefn honno yn yr ardaloedd â’r amddifadedd lleiaf o gymharu â 55.7% a 55.8% yn y drefn honno yn yr ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf).
- Gwahoddwyd 494,051 o gyfranogwyr[1] ar gyfer sgrinio coluddion.
- Awdurdodwyd 327,714 o brofion, ac o'r rhain, gwrthodwyd 1.8% gan na ellid eu profi.
- Rhoddwyd canlyniad pendant i 321,779 o brofion, ac roedd 98.1% ohonynt yn negatif ac 1.9% yn bositif.
- Anfonwyd llythyr canlyniad at 100% o'r cyfranogwyr o fewn wythnos (llai na saith diwrnod calendr) ar ôl i’r labordy gael y sampl.
- Ledled Cymru, cynigiwyd triniaeth ddiagnostig (colonosgopi neu sigmoidosgopi hyblyg) i 20.7% o gyfranogwyr a gafodd ganlyniad sgrinio positif, a hynny o fewn pedair wythnos iddynt gysylltu â Sgrinio Coluddion Cymru i wneud yr apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio.
- Cynigiwyd gweithdrefn ddiagnostig o fewn wyth wythnos i 63.1% o'r cyfranogwyr a gafodd ganlyniad sgrinio positif.
- Roedd presenoldeb yn yr apwyntiad diagnostig cyntaf yn 95.0% gyda 5,127 o gyfranogwyr yn mynd i apwyntiad triniaeth cyntaf.

[1] Nid yw'r nifer hwn o bobl a wahoddwyd yr un fath â'r cyfranogwyr a gafodd eu gwahodd *a’r rhai* sy’n gymwys a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo canran y rhai a gafodd eu sgrinio

- Yn y driniaeth ddiagnostig gyntaf, y gyfradd canfod canser oedd 8.9%, y gyfradd canfod polypau oedd 73.2% a'r gyfradd canfod adenomâu oedd 58.3%.

- Cafodd 457 o gyfranogwyr ddiagnosis o ganser a chafodd 3,752 o gyfranogwyr bolypau eu canfod a'u tynnu.

- Ledled Cymru, aethpwyd i 91.0% o'r sganiau Colonograffeg Tomograffeg Gyfrifiadurol (CTC) a drefnwyd.

# Data

## Cwmpas

### Diffiniad a safon

At ddibenion cyfrifo’r cwmpas, cyfranogwyr cymwys yw'r rhai sy'n byw yng Nghymru ar adeg yr adrodd, nad ydynt wedi rhoi'r gorau i gael eu gwahodd i gael prawf sgrinio'r coluddyn nac wedi'u hatal rhag cael eu gwahodd ar ôl cael gwybod am ddiagnosis o gyflwr y coluddyn, eu bod wedi symud allan o Gymru neu wedi marw, ac sydd rhwng 51 a 74 oed, sef yr ystod oedran gymwys.

Neilltuwyd cwintelau amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019, a fesurwyd ar lefel ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA). Mae ardaloedd cynnyrch ehangach haen is wedi'u rhestru'n gwintilau ar lefel Cymru gyfan fel y gellir eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintil pan archwilir data byrddau iechyd unigol (e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y cwintil â’r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, ond nid oes unrhyw ardaloedd yn y cwintil â’r amddifadedd mwyaf yng Nghymru).

Mae'r cyfrifiad yn cyfrif y cyfranogwyr cymwys hynny sydd wedi cael prawf sgrinio canser y coluddyn wedi'i ddadansoddi a'i awdurdodi gan y labordy o fewn dwy flynedd a hanner i'r dyddiad adrodd.

Safon: Bydd o leiaf 60% o bobl gymwys wedi cymryd rhan yn y rhaglen sgrinio o fewn y 2.5 mlynedd diwethaf.

### Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Ar lefel Cymru gyfan, y cwmpas oedd 64.8%

### Tuedd tair blynedd

Cwmpas lefel Cymru gyfan oedd 64.8% yn 2023-24, 63.1% yn 2022-23, a 63.9% yn 2021-22.

### Sylw


Ar lefel Cymru gyfan, cynyddodd y cwmpas (1.7%) yn 2023-24 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 1: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl rhyw a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2024

| | Cyfanswm | | | Benyw | | | Gwryw | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | Cymwys | Wedi'i sgrinio o fewn 2.5 mlynedd | % y Cwmpas | Cymwys | Wedi'i sgrinio o fewn 2.5 mlynedd | % y Cwmpas | Cymwys | Wedi'i sgrinio o fewn 2.5 mlynedd | % y Cwmpas |
| BIP Aneurin Bevan | 152,060 | 98,536 | **64.8** | 76,587 | 51,173 | **66.8** | 75,473 | 47,363 | **62.8** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 189,638 | 123,033 | **64.9** | 96,195 | 64,637 | **67.2** | 93,443 | 58,396 | **62.5** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 109,794 | 70,977 | **64.6** | 55,093 | 37,027 | **67.2** | 54,700 | 33,950 | **62.1** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 112,063 | 71,781 | **64.1** | 56,670 | 37,086 | **65.4** | 55,393 | 34,695 | **62.6** |
| BIP Hywel Dda | 111,843 | 73,729 | **65.9** | 57,006 | 38,934 | **68.3** | 54,835 | 34,794 | **63.5** |
| BI Addysgu Powys | 41,381 | 27,329 | **66.0** | 20,890 | 14,407 | **69.0** | 20,491 | 12,922 | **63.1** |
| BIP Bae Abertawe | 96,429 | 61,266 | **63.5** | 48,819 | 31,838 | **65.2** | 47,610 | 29,428 | **61.8** |
| Anhysbys | 807 | 474 | **58.7** | 416 | 246 | **59.1** | 391 | 228 | **58.3** |
| Cymru Gyfan | 814,015 | 527,125 | 64.8 | 411,676 | 275,348 | 66.9 | 402,336 | 251,776 | 62.6 |

Lle nad yw cod post preswylfa yn hysbys, nid yw'n bosibl ei gysylltu â chwintil na bwrdd iechyd. Felly mae wedi'i gategoreiddio fel anhysbys.





Ffigur 2: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2024

Tabl 2: Cwmpas Sgrinio Coluddion(o fewn 2.5 mlynedd), %, yn ôl cwintil amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2024

| | % y Cwmpas | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | C1 - amddifadedd mwyaf | C2 | C3 | C4 | C5 - amddifadedd lleiaf | Cyfanswm y cwmpas |
| BIP Aneurin Bevan | 56.3 | 62.7 | 65.5 | 69.3 | 72.9 | **64.8** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 53.9 | 59.6 | 64.8 | 67.5 | 70.3 | **66.3** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 52.8 | 58.4 | 61.4 | 66.5 | 72.2 | **64.2** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 58.0 | 62.5 | 64.2 | 68.1 | 72.0 | **70.3** |
| BIP Hywel Dda | 57.3 | 63.4 | 65.8 | 69.0 | 69.6 | **77.9** |
| BI Addysgu Powys | 57.5 | 61.6 | 64.7 | 67.5 | 70.0 | **81.1** |
| BIP Bae Abertawe | 55.9 | 61.2 | 63.1 | 67.2 | 70.7 | **45.5** |
| Anhysbys | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | **58.7** |
| **Cymru Gyfan** | **55.7** | **61.6** | **64.7** | **68.0** | **71.5** | **63.5** |

Lle nad yw cod post preswylfa yn hysbys, nid yw'n bosibl ei gysylltu â chwintil na bwrdd iechyd. Felly mae wedi'i gategoreiddio fel anhysbys.




Ffigur 3: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl cwintil amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2024

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Tabl 3: Cwmpas Sgrinio Coluddion Cymru Gyfan - Cymhariaeth Hanesyddol

| Blwyddyn | Cymwys | Wedi'u profi | % y Cwmpas |
|---|---|---|---|
| 2015-16 | 540,022 | 279,308 | 51.7 |
| 2016-17 | 545,623 | 281,321 | 51.6 |
| 2017-18 | 550,971 | 294,121 | 53.4 |
| 2018-19 | 555,549 | 309,303 | 55.7 |
| 2019-20 | 546,106 | 321,695 | 58.9 |
| 2020-21 | 572,681 | 361,846 | 63.2 |
| 2021-22 | 664,439 | 424,573 | 63.9 |
| 2022-23 | 807,903 | 510,120 | 63.1 |
| 2023-24 | 814,015 | 527,125 | 64.8 |

# Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio yn ôl bwrdd iechyd preswyl

## Diffiniad a safon

At ddibenion cyfrifo canran y bobl a gafodd brawf sgrinio, y cyfranogwyr cymwys yw'r rhai a oedd yn byw yng Nghymru (heb eu didynnu ar NHAIS (Gwasanaethau Cais a Seilwaith Iechyd Cenedlaethol) yn y chwe mis yn dilyn y gwahoddiad) ac a wahoddwyd i gael prawf sgrinio'r coluddyn yn ystod yr ystod dyddiadau o'r cyfnod adrodd. Cafodd cyfranogwyr a oedd wedi gorffen cael gwahoddiad neu a oedd wedi eu hatal rhag cael gwahoddiad i sgrinio'r coluddyn yn dilyn hysbysiad o gyflwr y coluddyn wedi'i ddiagnosio, ar ôl symud allan o Gymru neu wedi marw, o fewn chwe mis i'r gwahoddiad eu heithrio, oni bai eu bod wedi dychwelyd prawf wedi'i ddefnyddio.

Ystyriwyd bod cyfranogwyr wedi ymateb i'w gwahoddiad os oedd y rhaglen sgrinio coluddion yn cael prawf a ddefnyddiwyd o fewn chwe mis ar ôl y gwahoddiad.

Neilltuwyd cwintelau amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019, a fesurwyd ar lefel ardal gynnyrch uwch is (LSOA). Mae ardaloedd gynnyrch ehangach haen is wedi'u rhestru'n gwintilau ar lefel Cymru gyfan fel y gellir eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintil pan edrychir ar bob bwrdd iechyd e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y cwintil â’r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, ond nid oes unrhyw ardaloedd yn yn y cwintil â’r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.

Safon: Dychwelodd o leiaf 60% o'r cyfranogwyr a wahoddwyd brawf wedi'i gwblhau o fewn chwe mis ar ôl cael y gwahoddiad.

## Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Ar lefel Cymru gyfan, y nifer a gafodd brawf sgrinio oedd 65.5%

## Tuedd tair blynedd

Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio ar lefel Cymru gyfan oedd 65.5% yn 2023-24, 65.9% yn 2022-23, a 67.2% yn 2021-22.

## Sylw

Ar lefel Cymru gyfan, gostyngodd y nifer a gafodd eu sgrinio ychydig (0.4%) yn 2023-24 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.


Mae'r rhaglen yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio ar draws y boblogaeth, yn ogystal ag yn benodol mewn grwpiau lle mae canran y rhai sy'n cael eu sgrinio’n isel.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 4: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yn ôl rhyw a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24

| | Cyfanswm | | | Benyw | | | Gwryw | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | Cymwys | A ymatebodd | % a gafodd eu sgrinio | Cymwys | A ymatebodd | % a gafodd eu sgrinio | Cymwys | A ymatebodd | % a gafodd eu sgrinio |
| BIP Aneurin Bevan | 91,682 | 59,761 | **65.2** | 46,278 | 31,126 | **67.3** | 45,404 | 28,635 | **63.1** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 114,957 | 75,792 | **65.9** | 58,214 | 39,655 | **68.1** | 56,743 | 36,137 | **63.7** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 66,742 | 43,608 | **65.3** | 33,274 | 22,672 | **68.1** | 33,467 | 20,936 | **62.6** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 67,538 | 43,564 | **64.5** | 34,100 | 22,571 | **66.2** | 33,438 | 20,993 | **62.8** |
| BIP Hywel Dda | 66,837 | 44,794 | **67.0** | 34,117 | 23,634 | **69.3** | 32,720 | 21,160 | **64.7** |
| BI Addysgu Powys | 24,617 | 16,560 | **67.3** | 12,488 | 8,746 | **70.0** | 12,129 | 7,814 | **64.4** |
| BIP Bae Abertawe | 57,503 | 36,910 | **64.2** | 29,111 | 19,239 | **66.1** | 28,392 | 17,671 | **62.2** |
| Anhysbys | 498 | 311 | **62.4** | 257 | 157 | **61.1** | 241 | 154 | **63.9** |
| Cymru Gyfan | 490,374 | 321,300 | 65.5 | 247,839 | 167,800 | 67.7 | 242,534 | 153,500 | 63.3 |

Lle nad yw cod post preswylfa yn hysbys, nid yw'n bosibl ei gysylltu â chwintil na bwrdd iechyd. Felly mae wedi'i gategoreiddio fel anhysbys.





Ffigur 4 Nifer y rhai a gafodd brawf sgrinio’r coluddyn yn ôl bwrdd iechyd preswyl, 2023-24

Tabl 5: % y rhai a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yn ôl cwintil amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24

| Bwrdd Iechyd | % a gafodd eu sgrinio | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | C1 - amddifadedd mwyaf | C2 | C3 | C4 | C5 - amddifadedd lleiaf | Cyfanswm y rhai a gafodd eu sgrinio |
| BIP Aneurin Bevan | 55.8 | 63.4 | 66.1 | 70.0 | 73.6 | **65.9** |
| Betsi Cadwaladr UHB | 54.7 | 60.3 | 65.7 | 68.4 | 72.2 | **69.1** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 53.1 | 58.9 | 62.0 | 66.9 | 73.5 | **61.7** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 58.3 | 62.7 | 65.0 | 68.5 | 72.5 | **80.4** |
| BIP Hywel Dda | 57.4 | 64.2 | 67.2 | 70.2 | 70.6 | **77.6** |
| BI Addysgu Powys | 56.7 | 61.6 | 66.4 | 68.7 | 71.9 | **80.8** |
| BIP Bae Abertawe | 55.6 | 62.0 | 63.3 | 68.5 | 71.9 | **71.4** |
| Anhysbys | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | 62.4 |
| **Cymru Gyfan** | **55.8** | **62.1** | **65.7** | **68.9** | **72.7** | **65.8** |

Lle nad yw cod post preswylfa yn hysbys, nid yw'n bosibl ei gysylltu â chwintil na bwrdd iechyd. Felly mae wedi'i gategoreiddio fel anhysbys.




Ffigur 5: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn (%) yn ôl cwintil amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24

Tabl 6: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yng Nghymru gyfan - Cymhariaeth Hanesyddol

| Blwyddyn | Cymwys | Wedi'u profi | % a gafodd eu sgrinio |
|---|---|---|---|
| 2015-16 | 281,082 | 152,794 | 54.4 |
| 2016-17 | 274,738 | 146,592 | 53.4 |
| 2017-18 | 283,106 | 157,594 | 55.7 |
| 2018-19 | 280,556 | 160,652 | 57.3 |
| 2019-20 | 273,045 | 167,986 | 61.5 |
| 2020-21 | 223,667 | 150,161 | 67.1 |
| 2021-22 | 354,131 | 238,065 | 67.2 |
| 2022-23 | 414,032 | 272,928 | 65.9 |
| 2023-24 | 490,374 | 321,300 | 65.5 |

Tabl 7: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yng Nghymru gyfan (%) yn ôl mis y gwahoddiad, 2023-24

| Blwyddyn y Gwahoddiad | Mis y Gwahoddiad | Cymwys | Wedi'u profi | Canran a gafodd eu sgrinio |
|---|---|---|---|---|
| **2023** | Ebr | 37,547 | 24,986 | **66.5** |
| **2023** | Mai | 46,821 | 31,802 | **67.9** |
| **2023** | Meh | 37,636 | 25,490 | **67.7** |
| **2023** | Gor | 37,197 | 25,194 | **67.7** |
| **2023** | Awst | 46,879 | 30,861 | **65.8** |
| **2023** | Med | 37,760 | 24,435 | **64.7** |
| **2023** | Hyd | 38,054 | 25,864 | **68.0** |
| **2023** | Tach | 47,563 | 31,039 | **65.3** |
| **2023** | Rhagfyr | 37,709 | 23,258 | **61.7** |
| **2024** | Ion | 47,389 | 30,302 | **63.9** |
| **2024** | Chwe | 37,882 | 24,184 | **63.8** |
| **2024** | Maw | 37,937 | 23,885 | **63.0** |
| Cyfanswm | | **490,374** | **321,300** | **65.5** |

# Nifer y bobl a gafodd eu sgrinio yn ôl y math o ailalw

## Diffiniad a safon

At ddibenion cyfrifo nifer y bobl a gafodd eu sgrinio, y cyfranogwyr cymwys yw'r rhai oedd yn byw yng Nghymru (heb eu didynnu ar NHAIS yn y chwe mis yn dilyn y gwahoddiad) ac a wahoddwyd i gael prawf sgrinio'r coluddyn yn ystod yr ystod dyddiadau o'r cyfnod adrodd. Cafodd cyfranogwyr a gafodd eu hatal neu eu hatal rhag cael gwahoddiad i sgrinio'r coluddyn yn dilyn hysbysiad o gyflwr y coluddyn wedi'i ddiagnosio, ar ôl symud allan o Gymru neu farwolaeth, o fewn chwe mis i'r gwahoddiad eu heithrio, oni bai eu bod wedi dychwelyd prawf wedi'i ddefnyddio.

Ystyriwyd bod cyfranogwyr wedi ymateb i'w gwahoddiad os oedd y rhaglen sgrinio coluddion yn cael prawf a ddefnyddiwyd o fewn chwe mis i'w gwahoddiad.

Rownd Bennaf - y gwahoddiad cyntaf: Y gwahoddiad cyntaf ar gyfer y rownd bennaf yw'r tro cyntaf i unigolyn gael ei wahodd i gael ei sgrinio. Nid yw wedi cael ei sgrinio o'r blaen gan nad yw wedi cael gwahoddiad o'r blaen.

Y rownd bennaf - gwahoddiad dilynol: Y gwahoddiad dilynol ar gyfer y rownd bennaf yw pan fydd unigolyn wedi cael gwahoddiad o'r blaen ond heb gael ei sgrinio o'r blaen. Nid yw wedi cael ei sgrinio o'r blaen, ond mae nhw wedi cael gwahoddiad o'r blaen.

Rownd Digwyddiad: Y rownd digwyddiad yw pan fydd pobl sydd wedi cael gwahoddiad o'r blaen, ac wedi derbyn y cynnig, yn cael eu gwahodd eto i gael eu sgrinio'n ddiweddarach.

Safon: Dychwelodd o leiaf 60% o'r cyfranogwyr gwadd brawf wedi'i gwblhau o fewn chwe mis ar ôl y gwahoddiad.

## Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Tabl 8: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio'r coluddyn yng Nghymru yn ôl y math o ailalw, 2023-24

| | Rownd Bennaf - Gwahoddiad 1af | | | Rownd Bennaf - Gwahoddiad(au) dilynol | | | Rownd Digwyddiad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Cymwys | Wedi'u profi | % a gafodd eu sgrinio | Cymwys | Wedi'u profi | % a gafodd eu sgrinio | Cymwys | Wedi'u profi | % a gafodd eu sgrinio |
| **2023-24** | 195,726 | 113,850 | **58.2** | 81,436 | 14,254 | **17.5** | 213,212 | 193,196 | **90.6** |

## Tuedd tair blynedd

Tabl 9: Nifer y bobl a gafodd brawf sgrinio’r coluddyn yng Nghymru gyfan yn ôl y math o ailalw, tuedd tair blynedd

| | Rownd Bennaf - Gwahoddiad 1af | | | Rownd Bennaf - Gwahoddiad(au) dilynol | | | Rownd Digwyddiad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Cymwys | Wedi'u profi | % a gafodd eu sgrinio | Cymwys | Wedi'u profi | % a gafodd eu sgrinio | Cymwys | Wedi'u profi | % a gafodd eu sgrinio |
| **2023-24** | 195,726 | 113,850 | **58.2** | 81,436 | 14,254 | **17.5** | 213,212 | 193,196 | **90.6** |
| **2022-23** | 205,701 | 129,694 | **63.0** | 61,070 | 10,319 | **16.9** | 147,261 | 132,915 | **90.3** |
| **2021-22** | 68,961 | 44,283 | **64.2** | 94,478 | 20,809 | **22.0** | 190,692 | 172,973 | **90.7** |

## Sylw

Mae'r nifer sy'n cael eu sgrinio ar ei huchaf ymhlith y rhai sydd wedi cymryd rhan mewn sgrinio am ganser y coluddyn o'r blaen (y rownd digwyddiad) ac ar ei hisaf ymhlith y rhai sydd wedi cael gwahoddiad o'r blaen ond nad ydynt wedi cymryd rhan (rownd bennaf - gwahoddiad dilynol). Mae'r duedd hon wedi bod yn gyson dros y tair blynedd ddiwethaf.

# Cyfranogwyr a wahoddwyd

## Diffiniad a safon

Dim diffiniad na safon

## Y canlyniad  ar gyfer 2023-2024

Gwahoddwyd 494,051 o gyfranogwyr, rhwng 51 a 74 oed.

## Tuedd tair blynedd

Gwahoddwyd 494,051 o gyfranogwyr, rhwng 51 a 74 oed, yn 2023-24.

Gwahoddwyd 417,683 o gyfranogwyr, rhwng 55 a 74 oed, yn 2022-23.

Gwahoddwyd 356,851 o gyfranogwyr, rhwng 58 a 74 oed, yn 2021-22.

## Ffigurau a thablau

Tabl 10: Nifer y cyfranogwyr benywaidd a wahoddwyd i gael prawf sgrinio'r coluddyn yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24

| Cyfranogwyr Benywaidd | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bwrdd Iechyd** | **51-54 oed** | **55-57 oed** | **58-59 oed** | **60-64 oed** | **65-69 oed** | **70-74 oed** | **Cyfanswm a Wahoddwyd** |
| BIP Aneurin Bevan | 8786 | 9,730 | 65 | 9,975 | 8,199 | 9,767 | **46,522** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 10564 | 11,440 | 188 | 12,507 | 10,744 | 13,130 | **58,573** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 6520 | 6,716 | 59 | 7,302 | 5,979 | 6,887 | **33,463** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 6504 | 6,911 | 46 | 7,385 | 6,027 | 7,399 | **34,272** |
| BIP Hywel Dda | 5776 | 6,536 | 101 | 7,446 | 6,592 | 7,834 | **34,285** |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 1999 | 2,333 | 56 | 2,730 | 2,474 | 2,959 | **12,551** |
| BIP Bae Abertawe | 5296 | 5,783 | 39 | 6,340 | 5,471 | 6,312 | **29,241** |
| Anhysbys | 63 | 51 | 10 | 70 | 51 | 33 | **278** |
| **Cymru Gyfan** | **45,508** | **49,500** | **564** | **53,755** | **45,537** | **54,321** | **249,185** |

Tabl 11: Nifer y cyfranogwyr gwrywaidd a wahoddwyd i gael prawf sgrinio'r coluddyn yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24

| Cyfranogwyr Gwrywaidd | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | 51-54 oed | 55-57 oed | 58-59 oed | 60-64 oed | 65-69 oed | 70-74 oed | Cyfanswm a Wahoddwyd |
| BIP Aneurin Bevan | 9,069 | 9,717 | 79 | 10,138 | 7,859 | 8,999 | **45,861** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 10,731 | 11,605 | 203 | 12,490 | 10,183 | 12,047 | **57,259** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 7,015 | 7,103 | 49 | 7,461 | 5,823 | 6,400 | **33,851** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 6,584 | 7,109 | 51 | 7,364 | 5,741 | 6,892 | **33,741** |
| BIP Hywel Dda | 5,470 | 6,341 | 102 | 7,257 | 6,469 | 7,371 | **33,010** |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 1,990 | 2,263 | 54 | 2,713 | 2,333 | 2,872 | **12,225** |
| BIP Bae Abertawe | 5,560 | 6,027 | 38 | 6,222 | 5,016 | 5,785 | **28,648** |
| Anhysbys | 72 | 43 | 11 | 67 | 51 | 26 | **270** |
| **Cymru Gyfan** | **46,491** | **50,208** | **587** | **53,712** | **43,475** | **50,392** | **244,865** |

Tabl 12: Cyfanswm y cyfranogwyr a wahoddwyd i gael prawf sgrinio'r coluddyn yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2023-24

| Cyfranogwyr | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bwrdd Iechyd** | **51-54 oed** | **55-57 oed** | **58-59 oed** | **60-64 oed** | **65-69 oed** | **70-74 oed** | **Cyfanswm a Wahoddwyd** |
| BIP Aneurin Bevan | 17,855 | 19,447 | 144 | 20,113 | 16,058 | 18,766 | **92,383** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 21,295 | 23,045 | 391 | 24,997 | 20,927 | 25,177 | **115,832** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 13,535 | 13,819 | 109 | 14,763 | 11,802 | 13,287 | **67,315** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 13,088 | 14,020 | 97 | 14,749 | 11,768 | 14,291 | **68,013** |
| BIP Hywel Dda | 11,246 | 12,877 | 203 | 14,703 | 13,061 | 15,205 | **67,295** |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 3,989 | 4,596 | 110 | 5,443 | 4,807 | 5,831 | **24,776** |
| BIP Bae Abertawe | 10,856 | 11,810 | 77 | 12,562 | 10,487 | 12,097 | **57,889** |
| Anhysbys | 135 | 94 | 21 | 137 | 102 | 59 | **548** |
| **Cymru Gyfan** | **91,999** | **99,708** | **1,152** | **107,467** | **89,012** | **104,713** | **494,051** |

# Cyfraddau adrodd labordai

## Diffiniad a safon

Cyfrifir cyfraddau profion negatif a phositif fel cyfran o'r profion a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd fel canlyniadau negatif a phositif – h.y. y profion hynny sydd â chanlyniad pendant.

Prawf a wrthodwyd yw un sy'n cael ei wrthod ar gyfer profi gan y labordy oherwydd ei fod yn methu â bodloni meini prawf penodol a ddiffiniwyd ar gyfer derbyn sampl sydd wedi'u dogfennu yn y Llawlyfr Ansawdd y Labordy e.e. diffyg cyfatebiaeth rhwng yr enw a'r cod bar neu brawf sydd wedi mynd heibio dyddiad terfyn y gwneuthurwr. Cyfrifir y cyfraddau hyn fel cyfran o gyfanswm y profion sgrinio'r coluddyn a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd.

Cyfrifir canlyniadau a wrthodwyd fel canran o'r holl ganlyniadau (negatif, positif a'r rhai sydd wedi'u gwrthod).

Safon cyfradd y canlyniadau positif: rhwng 1% a 2.5% o'r holl becynnau prawf a ddychwelir gyda chanlyniadau diffiniol â chanlyniad positif.

Safon cyfradd y canlyniadau a wrthodwyd: yw llai na 2% o'r holl becynnau prawf awdurdodedig a ddychwelwyd â chanlyniad a wrthodwyd.

## Y canlyniad  ar gyfer 2023-2024

Yn 2023-24, cyfradd profion negyddol Cymru gyfan oedd 98.1%, cyfradd y profion positif oedd 1.9% a chyfradd y rhai a oedd wedi'u gwrthod oedd 1.8%.

## Tuedd tair blynedd

Yn 2023-24, y gyfradd negatif ar gyfer Cymru gyfan oedd 98.1%, y gyfradd bositif oedd 1.9% a chyfradd y rhai a oedd wedi'u gwrthod oedd 2.1%.

Yn 2022-23, y gyfradd negatif ar gyfer Cymru gyfan oedd 98.1%, y gyfradd bositif oedd 1.9% a chyfradd y rhai a oedd wedi'u gwrthod oedd 2.1%.

Yn 2021-22, y gyfradd negatif ar gyfer Cymru gyfan oedd 98.0%, y gyfradd bositif oedd 2.0% a chyfradd y rhai a oedd wedi'u gwrthod oedd 3.7%.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 13: Nifer y citiau Sgrinio'r Coluddyn a awdurdodwyd yn ôl y canlyniad a'r bwrdd iechyd preswyl

| | Nifer y profion a awdurdodwyd – FIT Hylifol | | | | Canran - FIT Hylifol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | Gwrthodwyd | Negatif | Positif | Cyfanswm | Gwrthodwyd | Negatif | Positif |
| BIP Aneurin Bevan | 1,077 | 58,617 | 1,157 | **60,851** | 1.8% | 98.1% | 1.9% |
| BIP Betsi Cadwaladr | 1,326 | 74,944 | 1,435 | **77,705** | 1.7% | 98.1% | 1.9% |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 882 | 42,860 | 756 | **44,498** | 2.0% | 98.3% | 1.7% |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 817 | 42,686 | 892 | **44,395** | 1.8% | 98.0% | 2.0% |
| Hywel Dda BIP | 753 | 43,976 | 823 | **45,552** | 1.7% | 98.2% | 1.8% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 276 | 16,330 | 266 | **16,872** | 1.6% | 98.4% | 1.6% |
| BIP Bae Abertawe | 800 | 36,011 | 748 | **37,559** | 2.1% | 98.0% | 2.0% |
| Anhysbys | 4 | 268 | 10 | **282** | 1.4% | 96.4% | 3.6% |
| **Cymru Gyfan** | **5,935** | **315,692** | **6,087** | **327,714** | **1.8%** | **98.1%** | **1.9%** |

Cyfrifir cyfraddau negatif a phositif fel canran o swm y canlyniadau negatif a phositif yn unig. Cyfrifir cyfraddau gwrthod fel canran o'r holl ganlyniadau (negatif, positif ac wedi'u gwrthod).

# Amseroedd aros ar gyfer canlyniadau sgrinio

## Diffiniad a safon

Y cyfnod rhwng yr adeg pan fydd pecyn prawf sgrinio yn dod i law labordy Sgrinio Coluddion Cymru ac anfon y llythyr canlyniadau at y cyfranogwr.

Safon: Anfonir canlyniad eu prawf sgrinio at 95% o gyfranogwyr o fewn saith diwrnod ar ôl i’r pecyn prawf ddod i law’r labordy.

## Y canlyniad  ar gyfer 2023-2024

Yn 2023-24, anfonwyd canlyniad prawf sgrinio at 100% o'r cyfranogwyr o fewn saith diwrnod ar ôl i’r pecyn prawf sgrinio ddod i law’r labordy.

## Tuedd tair blynedd

Anfonwyd canlyniad prawf sgrinio at 100% o'r cyfranogwyr o fewn saith diwrnod ar ôl i’r pecyn prawf sgrinio ddod i law’r labordy yn 2023-24, 2022-23 a 2021-22.

## Sylw

Mae’r rhan fwyaf o’r pecynnau prawf sgrinio yn cael eu dadansoddi ar y diwrnod y mae'r pecyn yn dod i law’r labordy, gyda phob cyfranogwr sgrinio dros y cyfnod o dair blynedd diwethaf yn cael eu llythyr canlyniad o fewn 7 diwrnod calendr ar ôl i’r pecyn sgrinio ddod i law’r labordy.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 14: Amser aros am ganlyniadau'r profion sgrinio, rhwng yr adeg dod i law a'r canlyniad awdurdodedig, 2023-24

| Diwrnodau rhwng dod i law ac awdurdodi | Nifer a awdurdodwyd | Canran y cyfanswm a awdurdodwyd |
|---|---|---|
| Yr un diwrnod | 322,268 | 98.3% |
| 1 | 4,999 | 1.5% |
| 2 | 3 | 0.0% |
| 3 | 189 | 0.1% |
| 4 | 254 | 0.1% |
| 5 | 0 | 0.0% |
| 6 | 1 | 0.0% |
| 7-13 Diwrnod | 0 | 0.0% |
| 14 diwrnod + | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **327,714** | **100.0%** |

# Presenoldeb mewn apwyntiadau colonosgopi

## Diffiniad a safon

Mae presenoldeb yn defnyddio apwyntiadau colonosgopi mynegeio neu sigmoidosgopi hyblyg sy'n cael eu trefnu yn y cyfnod adrodd.

Safonol: dim.

## Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Yn 2023-24, ar lefel Cymru gyfan, aeth 95% o'r cyfranogwyr i'w hapwyntiad mynegeio.

## Tuedd tair blynedd

Ar lefel Cymru gyfan, aeth 95% o gyfranogwyr i'w hapwyntiad mynegeio yn 2023-24, gyda 95.0% yn 2022-23, a 94.4% yn 2021-22.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 15: Presenoldeb mewn colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg, yn ôl bwrdd iechyd preswyl, 2023-24

| Bwrdd Iechyd | Apwyntiad mynegeio wedi'i drefnu | A aethpwyd i apwyntiad mynegeio | % yr aethpwyd iddynt |
|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 994 | 916 | 92.2% |
| BIP Betsi Cadwaladr | 1,223 | 1,171 | 95.7% |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 696 | 665 | 95.5% |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 905 | 873 | 96.5% |
| BIP Hywel Dda | 724 | 699 | 96.5% |
| BI Addysgu Powys | 211 | 205 | 97.2% |
| BIP Bae Abertawe | 643 | 598 | 93.0% |
| **Cymru Gyfan** | **5,396** | **5,127** | **95.0%** |

# Cyfraddau canfod

## Diffiniad a safon

Cyfrifir cyfraddau canfod fel canran y cyfranogwyr sy'n mynychu apwyntiad colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg lle mae canser/polyp(au)/ adenoma(au) wedi'u canfod.

Er mwyn canfod polypau, rhaid tynnu un, neu fwy, o bolypau yn ystod yr apwyntiad hefyd.

Y safon ar gyfer canfod canser: Canfyddir canser mewn o leiaf 10% o gyfranogwyr sy'n cael colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg.

Y safon ar gyfer canfod polypau: Canfyddir polypau mewn o leiaf 50% o gyfranogwyr sy'n cael colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg.

Y safon ar gyfer canfod adenoma: Canfyddir adenomâu mewn o leiaf 35% o gyfranogwyr sy'n cael colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg.

## Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Yn 2023-24, y gyfradd canfod canser oedd 8.9%, y gyfradd canfod polypau oedd 73.2% a'r gyfradd canfod adenomâu oedd 58.3%.

## Tuedd tair blynedd

Yn 2023-24, y gyfradd canfod canser oedd 8.9%, y gyfradd canfod polypau oedd 73.2% a'r gyfradd canfod adenomâu oedd 58.3%.

Yn 2022-23, y gyfradd canfod canser oedd 10.1%, y gyfradd canfod polypau oedd 73.4% a'r gyfradd canfod adenomâu oedd 56.7%.

Yn 2021-22, y gyfradd canfod canser oedd 10.4%, y gyfradd canfod polypau oedd 73.3% a'r gyfradd canfod adenomâu oedd 59.0%.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 16: Cyfraddau canfod, tuedd tair blynedd

| | 2023-24 (N=5,127)[a] | | 2022-23 (N=3,725)[a] | | 2021-22 (N=3,440)[a] | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y Nifer a Ganfuwyd | Y Ganran a Ganfuwyd | Y Nifer a Ganfuwyd | Y Ganran a Ganfuwyd | Y Nifer a Ganfuwyd | Y Ganran a Ganfuwyd |
| Cyfradd Canfod Canser | 457 | 8.9% | 376 | 10.1% | 357 | 10.4% |
| Cyfradd canfod polypau | 3,752 | 73.2% | 2,733 | 73.4% | 2,522 | 73.3% |
| Cyfradd canfod adenomâu | 2,991 | 58.3% | 2,112 | 56.7% | 2,031 | 59.0% |

Cyfrifir cyfraddau canfod fel cyfran y cyfranogwyr sy'n mynychu apwyntiadau colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg. Er mwyn canfod polypau, rhaid tynnu un, neu fwy, o bolypau yn ystod yr apwyntiad hefyd.

Mae [a]N yn dynodi cyfanswm yr apwyntiadau mynegeio yr aethpwyd iddynt.

# Amseroedd aros ar gyfer apwyntiad colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg

## Diffiniad a safon

Y cyfnod rhwng yr adeg pan fydd cyfranogwr yn ffonio i drefnu asesiad gan Ymarferydd Sgrinio (SP) a'r dyddiad cyntaf a gynigir ar gyfer colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg.

Cyfrifwyd amseroedd aros gan ddefnyddio'r cyfranogwyr hynny a gafodd apwyntiad cyfeirio cyntaf o fewn y cyfnod adrodd. Efallai nad dyma'r apwyntiad yr aethant iddo, oherwydd dewis y cyfranogwr neu ffactorau eraill.

Safon: Mae 90% o'r cyfranogwyr yr ystyriwyd eu bod yn addas ar gyfer colonosgopi/sigmoidosgopi hyblyg yn cael cynnig eu hapwyntiad triniaeth fynegeio hyd at, ac yn cynnwys, 28 diwrnod calendr o'r dyddiad y maent yn ffonio i drefnu apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio.

## Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Cynigiwyd apwyntiad mynegeio i 5,310 o gyfranogwyr a chynigiwyd dyddiad triniaeth i 1098 (20.7%) o'r rheini o fewn pedair wythnos (28 diwrnod) ar ôl trefnu eu hapwyntiad asesu gydag Ymarferydd Sgrinio.

## Tuedd tair blynedd

Yn 2023-24, cynigiwyd dyddiad triniaeth o fewn pedair wythnos (28 diwrnod) i 1098 (20.7%) o 5,310 o gyfranogwyr.

Yn 2022-23, cynigiwyd dyddiad triniaeth o fewn pedair wythnos (28 diwrnod) i 591 (15.2%) o 3,883 o gyfranogwyr.

Yn 2021-22, cynigiwyd dyddiad triniaeth o fewn pedair wythnos (28 diwrnod) i 141 (3.8%) o 3,693 o gyfranogwyr.

## Sylw

O'r 5,310 o gyfranogwyr a gafodd gynnig apwyntiad mynegeio yn 2023-24, cynigiwyd dyddiad triniaeth i 2255 (42.5%) rhwng pedair ac wyth wythnos a chynigiwyd dyddiad triniaeth i 1957 (36.9%) fwy nag wyth wythnos ar ôl trefnu eu hapwyntiad asesu gydag Ymarferydd Sgrinio.

# Mynychu sganiau Colonagraffeg Tomograffeg Gyfrifiadurol (CTC)

## Diffiniad a safon

Diffiniad: Dim

Safon: Dim

## Y canlyniad ar gyfer 2023-2024

Yn 2023-24, ledled Cymru, aethpwyd i 91.0% o'r 377 o sganiau CTC a drefnwyd; mae hyn yn amrywio rhwng 84.2% a 97.1% ar draws Byrddau Iechyd.

## Tuedd tair blynedd

Yn 2023-24, ledled Cymru, aethpwyd i 91.0% o'r 377 o sganiau CTC a drefnwyd; mae hyn yn amrywio rhwng 84.2% a 97.1% ar draws Byrddau Iechyd.

Yn 2022-23, ledled Cymru, aethpwyd i 91.4% o'r 349 o sganiau CTC a drefnwyd; mae hyn yn amrywio rhwng 80.6% a 100% ar draws Byrddau Iechyd.

Yn 2021-22, ledled Cymru, aethpwyd i 92.8% o'r 375 o sganiau CTC a drefnwyd; mae hyn yn amrywio rhwng 88.7% a 97.5% ar draws Byrddau Iechyd.

# Diffiniadau

## Cymwys

At ddibenion cyfrifo'r cwmpas, cyfranogwyr cymwys yw'r rhai sy'n byw yng Nghymru ar adeg cyflwyno'r adroddiad, nad ydynt wedi gorffen cael gwahoddiad i gael prawf sgrinio'r coluddyn neu nad ydynt wedi'u hatal rhag cael gwahoddiad i gael prawf sgrinio'r coluddyn ar ôl cael gwybod am ddiagnosis o gyflwr y coluddyn, eu bod wedi symud y tu allan i Gymru neu wedi marw ac sydd rhwng yr ystod oedran gwahoddiad 58 i 74 oed.

At ddibenion cyfrifo canran y rhai a gafodd eu sgrinio, cyfranogwyr cymwys yw'r rhai a oedd yn byw yng Nghymru (heb eu didynnu ar NHAIS yn y chwe mis yn dilyn gwahoddiad) ac a gafodd eu gwahodd i gael prawf sgrinio'r coluddyn yn ystod dyddiadau'r cyfnod adrodd. Cafodd cyfranogwyr a oedd wedi gorffen cael gwahoddiad i gael prawf sgrinio'r coluddyn neu wedi'u hatal rhag hynny ar ôl cael diagnosis o gyflwr y coluddyn, symud i ffwrdd neu farwolaeth, o fewn chwe mis yn dilyn gwahoddiad eu heithrio, oni bai eu bod wedi dychwelyd prawf wedi'i ddefnyddio.

## Nifer a gafodd eu sgrinio

Tybiwyd bod cyfranogwyr wedi ymateb i'w gwahoddiad os oedd y rhaglen sgrinio coluddion wedi cael prawf a ddefnyddiwyd o fewn chwe mis yn dilyn eu gwahoddiad.

## Cwmpas

Mae'r cyfrifiad yn cyfrif y cyfranogwyr cymwys hynny y mae'r prawf a ddefnyddiwyd ganddynt wedi'i awdurdodi o fewn dwy flynedd a hanner i'r dyddiad adrodd.

## Amddifadedd

Neilltuwyd cwintelau amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019 a fesurwyd ar lefel ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA). Mae ardaloedd cynnyrch ehangach haen is wedi'u graddio i gwintelau Cymru gyfan er mwyn gallu eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintil pan edrychir ar bob bwrdd iechyd e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, ond nid oes unrhyw ardaloedd yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru

## Bwrdd Iechyd

Dyma'r bwrdd iechyd preswyl.

## Rownd Bennaf - gwahoddiad cyntaf

Y gwahoddiad cyntaf yn y rownd bennaf yw'r tro cyntaf y gwahoddir unigolyn i gymryd rhan mewn sgrinio.  Nid yw wedi'i sgrinio o'r blaen am nad yw wedi'i wahodd o'r blaen.

## Rownd bennaf - gwahoddiad dilynol

Y gwahoddiad dilynol yn y rownd bennaf yw pan fydd unigolyn wedi'i wahodd yn flaenorol, ond nad yw wedi cymryd rhan mewn sgrinio yn flaenorol. Nid yw wedi'u sgrinio o'r blaen ond mae wedi'i wahodd o'r blaen.

## Rownd Digwyddiad

Y rownd digwyddiad yw pan fydd pobl sydd wedi'u gwahodd yn flaenorol, ac sydd wedi derbyn y cynnig, wedyn yn cael eu hailwahodd i gael eu sgrinio.

## Prawf negatif a phositif

Cyfrifir y cyfraddau hyn fel cyfran o'r profion a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd fel canlyniadau negatif a phositif – h.y. y profion hynny sydd â chanlyniad pendant.

## Prawf a wrthodwyd

Prawf a wrthodwyd yw un sy'n cael ei wrthod ar gyfer profi gan y labordy am ei fod yn methu bodloni meini prawf penodol a ddiffiniwyd ar gyfer derbyn sampl sydd wedi'u dogfennu yn y Llawlyfr Ansawdd Labordy e.e. diffyg cyfatebiaeth rhwng yr enw a'r cod bar neu brawf sydd wedi mynd heibio dyddiad terfyn y gwneuthurwr. Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu cyfrifo fel cyfran o gyfanswm y profion sgrinio'r coluddyn a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd.

## Amseroedd aros ar gyfer canlyniadau sgrinio

Y cyfnod rhwng yr adeg pan fydd pecyn prawf sgrinio yn dod i law labordy Sgrinio Coluddion Cymru ac anfon y llythyr canlyniadau at y cyfranogwr.

## Triniaeth fynegeio

Triniaeth fynegeio yw'r driniaeth gyntaf yng nghyfnod sgrinio'r cyfranogwr.

## Colonosgopi

Colonosgopi yw archwiliad gweledol o du mewn y colon gyda thiwb hyblyg, wedi'i oleuo (colonosgop) a gaiff ei fewnosod trwy'r rhefr. Yn ystod colonosgopi, gellir cael biopsïau (samplau meinwe o ardaloedd annormal) i gynorthwyo diagnosis.

## Sigmoidosgopi Hyblyg

Archwiliad gweledol o ran isaf y coluddyn mawr yw sigmoidosgopi hyblyg gyda thiwb hyblyg wedi'i oleuo a gaiff ei fewnosod trwy'r rhefr. Yn ystod sigmoidosgopi hyblyg, gellir cael biopsïau (samplau meinwe o ardaloedd annormal) i gynorthwyo diagnosis.

## Cyfraddau presenoldeb a chanfod

Mae cyfraddau presenoldeb a chanfod yn adrodd ar y triniaethau sydd wedi'u trefnu yn y cyfnod adrodd.

## Cyfraddau canfod

Cyfrifir cyfraddau canfod fel canran y cyfranogwyr sy'n mynd i apwyntiad colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg sydd â chanser/ polyp(au)/ adenoma/adenomâu a ganfuwyd.

Ar gyfer canfod polyp, rhaid i un, neu ragor, o'r polyp(au) gael eu tynnu yn ystod y driniaeth.

## Polyp

Tyfiant ar leinin y colon neu'r rhefr yw polyp.

## Adenoma

Tyfiant diniwed yw adenoma, a all ddatblygu'n ganser.

## Amseroedd aros ar gyfer apwyntiad colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg

Y cyfnod rhwng yr adeg pan fydd cyfranogwr yn ffonio i drefnu asesiad Ymarferydd Sgrinioa'r dyddiad cyntaf a gynigir ar gyfer colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg

Cyfrifwyd amseroedd aros gan ddefnyddio'r cyfranogwyr hynny a gafodd driniaeth fynegeio gyntaf o fewn y cyfnod adrodd. Efallai nad dyma'r apwyntiad yr aethant iddo, oherwydd dewis y cyfranogwr neu ffactorau eraill.

## Sgan Colonograffeg Tomograffeg Gyfrifedig (CTC)

Mae sgan CTC yn dechneg pelydr-X arbenigol sy'n cynhyrchu delweddau manwl o'r coluddyn mawr.

# Y Tîm Cynhyrchu

| | |
|---|---|
| Dr Graham Brown | Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd |
| Steve Court | Pennaeth y Rhaglen - Sgrinio Coluddion Cymru |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio |
| Dr Sikha de Souza | Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd |
| Dr Emma Richards | Ymchwilydd Iechyd y Cyhoedd |
| Richard Wakely | Uwch Ddadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Guy Stevens | Rheolwr Gwybodeg a Gwasanaethau Data Dros Dro |
| Diane Rawlings | Cynorthwyydd Personol |

# Manylion cyswllt y rhaglen

Sgrinio Coluddion Cymru,

Y Ganolfan Sgrinio,

Uned 6, Parc Magden,

Llantrisant,

CF72 8XT

E-bost: bowel-screening@wales.nhs.uk

Telephone: 0800 294 3370

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales